WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad er budd y cyhoedd – methiannau o ran trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu – **Cyngor Cymuned Tirymynach**

Blwyddyn archwilio: 2015-16 a 2016-17

Cyhoeddwyd: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 547A2018-19

Mae'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd wedi ei baratoi yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw berson arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Deryck Evans a gyflawnodd y gwaith, o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau mewn trefniadau llywodraethu ac annigonolrwydd o ran trefniadau rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Tirymynach.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ddatganiadau Blynyddol y Cyngor ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.


Canfyddiadau manwl

Cyflwyniad 4

Ni chyflwynodd y Cyngor ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 i mi eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol 5

Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer arfer hawliau cyhoeddus ai peidio 6

Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc i CThEM 6

Ni pharatôdd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2015-16 na 2016-17 ac ni chymeradwyodd y praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn 8

Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cyhoeddi pob dogfen y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi yn electronig 9

Mae camgymeriadau sylweddol yn y cyfriflenni cyfrifyddu yn y datganiadau blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 10

Argymhellion 10

Camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor 11

Y camau nesaf 11

# Canfyddiadau manwl

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau mewn trefniadau llywodraethu ac annigonolrwydd o ran trefniadau rheoli ariannol a rheoli mewnol yng Nghyngor Cymuned Tirymynach. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

2 Rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau mewn trefniadau llywodraethu o'r fath yn digwydd eto yn cael ei lleihau gymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu gan y Cyngor, a hefyd gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

3 Lleolir y Cyngor yng Ngheredigion ac mae'n gwasanaethu tua 2,000 o drigolion yng nghymunedau Bow Street, Dole, Llangorwen a Chlarach. Mae gan y Cyngor ddeuddeg aelod etholedig ac mae'n gwario tua £15,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol. Mae'n ariannu hyn drwy gyfrwng praesept o tua £18,000 gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept drwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw arian Cyngor Cymuned Tirymynach o arian cyhoeddus, ac etholir ei aelodau gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

4 Mae cynghorau cymuned megis Tirymynach, oherwydd eu natur leol fach iawn, fel arfer yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc hefyd fel Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae hyn yn golygu derbyn a chofnodi incwm, paratoi taliadau siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

5 Yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau)), y Cyngor (hynny yw, yr aelodau) sy'n gyfrifol am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau trefniadau rheoli ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, gan gynnwys dull archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i'w harchwilio.

# Ni chyflwynodd y Cyngor ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 i mi eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol

6 O dan Adran 13 o'r Ddeddf rhaid i'r Cyngor wneud y canlynol:

- paratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu'r cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau y caiff ei gyfrifon eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf.

7 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol syml a anfonir i'r Cyngor bob blwyddyn. Mae Rheoliad 15 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gymeradwyo'r cyfrifon cyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Wedyn, mae'n rhaid i'r cyngor anfon y cyfrifon at yr Archwilydd Cyffredinol a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.

8 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.

Arddangosyn 1: dyddiadau cwblhau'r cyfrifon

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor | Dyddiad y'u cyflwynwyd i'w harchwilio |
|---|---|---|
| 2015-16 | 30 Mehefin 2016 | 23 Hydref 2017 |
| 2016-17 | 29 Mehefin 2017 | 23 Hydref 2017 |

9 Derbyniais sylwadau ysgrifenedig gan y Cyngor yn nodi bod datganiad blynyddol 2015-16 wedi'i gyflwyno i Grant Thornton, yr archwilwyr a oedd yn cwblhau'r archwiliad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn unol â'r amserlen a luniwyd gan Grant Thornton. Fodd bynnag, nid wyf wedi derbyn unrhyw dystiolaeth bod Grant Thornton wedi derbyn y datganiad blynyddol hwn.

10 Mae fy adolygiad o gofnodion y Cyngor yn fy arwain i gredu na chyflwynodd y Clerc, y Parchedig Richard Lewis, gyfrif cyflawn na mantoledig i'r Cyngor o'i berfformiad wrth gydymffurfio â'r terfynau amser hyn. Ysgrifennodd aelod o'm tîm archwilio at y Clerc ym mis Awst 2017 a chyfarfu â'r Clerc a'r Cadeirydd ar 23 Hydref 2017, a bryd hynny cefais y cyfrifon wedi'u cymeradwyo i'w harchwilio.

11 Er bod anallu'r Clerc blaenorol i gyflwyno cyfrifon ar amser yn ffactor arwyddocaol o ran methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol, rhaid i'r Cyngor ei hun ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb am y methiant hwn. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r cyfrifon hwyr.

12 Mae cofnodion y cyfarfod ym mis Hydref 2015 yn cofnodi derbyn y cyfrifon wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2014-15. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi'r argymhelliad a wnaed gan yr archwilydd penodedig blaenorol, BDO, y dylai'r swyddog ariannol cyfrifol ardystio'r cyfrifon ac y dylai'r Cyngor eu cymeradwyo erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Er gwaethaf yr argymhelliad hwn, nid yw cofnodion y cyfarfodydd dilynol yn cofnodi unrhyw bryderon o ran y methiant i gyflwyno cyfrifon 2015-16 tan fis Mawrth 2017. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynghorwyr unigol yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r cyfrifon, neu nid ydynt yn rhoi blaenoriaeth ddigonol iddynt.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud i arfer hawliau cyhoeddus ai peidio

13 Mae adrannau 30 a 31 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau cyhoeddus i edrych dros y cyfrifon sydd i'w harchwilio, holi'r archwilydd am y cyfrifon a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef.

14 Mae Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff hysbysu'r cyhoedd, drwy hysbyseb, mewn un neu fwy o fannau amlwg, gan nodi'r cyfnod pryd y bydd y cyfrifon a'r dogfennau eraill ar gael i'w harchwilio a rhoi'r manylion canlynol:

- y man lle byddant ar gael felly, a'r oriau pryd y byddant ar gael felly;
- enw a chyfeiriad yr archwilydd; y darpariaethau a geir yn adran 30 ac adran 31 o'r Ddeddf; a
- dyddiad a bennwyd o dan Reoliad 21.

15 Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Felly, rwyf wedi pennu 18 Medi 2018 fel y dyddiad y gall etholwyr lleol ddechrau arfer eu hawliau o dan y Ddeddf mewn perthynas â chyfrifon 2015-16 a 2016-17.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc i CThEM

16 Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o gynghorau cymuned, mae Tirymynach yn cyflogi un swyddog i ymgymryd â rolau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, sy'n rolau ar wahân yn gyfreithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion hyn yn gweithio'n rhan amser, gyda'u horiau yn amrywio o un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o

oriau y chwarter. Mae'r Clerc, fel un o swyddogion y cyngor, yn un o gyflogeion y Cyngor. Dylai'r Cyngor roi contract cyflogaeth sy'n nodi'r telerau ac amodau cyflogaeth i unrhyw gyflogeion. Mae contractau cyflogaeth yn rhoi eglurder ynglŷn â rôl a statws y clerc a'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer y swydd. Dylai'r Cyngor fod wedi sicrhau ei fod yn deall ei gyfrifoldebau wrth gyflogi'r Clerc.

17 Mae cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2016 yn cofnodi bod cydnabyddiaeth y clerc yn cynnwys cyflog a gyfrifwyd ar £11.19 yr awr a lwfans treuliau o £350.

18 Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i CThEM bob mis neu chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Mae'n rhaid i ddidyniadau TWE gael eu talu i CThEM. Mae'n rhaid i bob cyflogwr hefyd gadw cofnodion cyflogres.

19 Mae Arddangosyn 2 yn crynhoi cydnabyddiaeth y clerc ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

Arddangosyn 2: cydnabyddiaeth y Clerc

| Blwyddyn ariannol | 2015-16 | Oriau cyfwerth | 2016-17 | Oriau cyfwerth |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £2,793.02 | 249.6 | £2,028.00 | 181.2 |
| Lwfans treuliau | £350.00 | | £350.00 | |
| Cyfanswm | £3,143.02 | | £2,378.00 | |

20 Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw gofnodion cyflogres i ategu'r symiau a dalwyd fel cyflog i'r Clerc. Ni ddarparwyd contract cyflogaeth er mwyn i mi ddilysu'r symiau hyn. Ni roddwyd eglurhâd pam bod taliad y cyflog yn amrywio rhwng 2015-16 a 2016-17.

21 Mae'r lwfans treuliau yn swm penodedig a ni chaiff ei ategu gan dderbynebau na cheisiadau am dreuliau. Caiff treth ei ddidynnu o lwfans treuliau swm penodedig.

22 Caiff y Cyngor ei gofrestru fel cyflogwr gyda CThEM. Mae'r cofnodion a gyflwynwyd gan y Clerc yn nodi bod dwy siec (100887 a 100908) wedi'u hysgrifennu a'u gwneud yn daladwy i CThEM.

Arddangosyn 3: taliadau siec a ysgrifennwyd i CThEM

| Rhif y siec | Dyddiad fel y'i nodir ar y llyfr siec | Gwerth fel y'i nodir ar y llyfr siec | Statws |
|---|---|---|---|
| 100887 | 28 Ionawr 2016 | £624.00 | Wedi canslo |
| 100908 | Heb gofnodi | Heb gofnodi | Heb ei nodi |

23 Yn seiliedig ar y dystiolaeth rwyf wedi'i gweld mewn perthynas â'r gyflogres a TWE yn y Cyngor, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes cofnodion cyflogres priodol wedi cael eu cadw fel sy'n ofynnol.

24 Heb unrhyw gofnodion, ni allaf ddod i gasgliad ynghylch p'un a dalwyd y cyflog priodol i'r Clerc ai peidio na ph'un a wnaed y didyniadau TWE priodol ai peidio.

25 Yn ei sylwadau ysgrifenedig, mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd gan y Clerc gontract cyflogaeth ar gyfer y blynyddoedd ariannol a oedd yn destun archwiliad. Cafwyd eglurhad pellach gan y Cyngor bod y dreth a oedd yn ddyledus o gyflog y Clerc wedi'i dalu drwy ddatganiad o incwm ar ei ffurflen dreth bersonol.

## Ni pharatôdd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2015-16 na 2016-17 ac ni chymeradwyodd y praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn

26 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo'r gyllideb flynyddol a'i chymeradwyo. Mae Adran 41 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i gynghorau gyhoeddi praesept, y penderfynir ar y sail ar ei gyfer yn unol ag Adran 50, drwy gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.

27 Er gwaethaf y gofyniad statudol hwn, mae'r gyllideb yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- mae'n arwain at bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn;
- mae'n rhoi awdurdod i'r cyngor wario'r arian yn unol â'r cynlluniau gwariant cymeradwy a'r rheoliadau ariannol; a
- mae'n rhoi sylfaen ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu ffigurau gwirioneddol â gwariant arfaethedig.

28 Mae'r gyllideb yn elfen hollbwysig o drefniadau rheoli ariannol effeithiol ac atebolrwydd ac yn y pen draw, mae'n lleihau faint o amser y mae cynghorau yn ei dreulio yn rheoli eu hadnoddau ariannol. Yn niffyg trefniadau digonol ar gyfer pennu a monitro cyllidebau, ni all cynghorau reoli arian cyhoeddus yn effeithiol na dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol.

29 Mewn sylwadau ysgrifenedig, mae'r Cyngor yn nodi ei fod wedi paratoi cyllidebau ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod ei gofnodion yn cofnodi'r gyllideb a'r mater ynglŷn â'r praesept i Gyngor Sir Ceredigion.

30 Yn ystod fy archwiliad ni lwyddais i ganfod tystiolaeth fod y Cyngor wedi paratoi cyllideb ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 na 2016-17. Cyflwynodd y Cyngor i'w harchwilio, un ddalen o bapur ar gyfer pob blwyddyn gyda phenawdau gwariant amrywiol arni. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw werthoedd eu cofnodi o dan ddau bennawd ac felly ni ellir ystyried mai cyllideb y Cyngor ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol yw'r dalennau hyn.

31 Mae'r Cyngor wedi paratoi cyllideb ar gyfer 2017-18. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf.

32 Mae fy archwiliad o gofnodion y Cyngor yn fy arwain i gredu, er bod y cofnodion yn cofnodi bod y praesept blynyddol wedi'i dderbyn, nad oes unrhyw gofnod bod y Cyngor erioed wedi cymeradwyo cyflwyno praesept i Gyngor Sir Ceredigion.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cyhoeddi pob dogfen y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi yn electronig

33 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) mae'n ofynnol i bob cyngor lleol gyhoeddi ei fanylion cyswllt a manylion ei aelodau a chofnodion o'i drafodion ar y rhyngrwyd. O dan Ddeddf 2013 mae hefyd yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

34 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwneud cynghorau lleol yn fwy atebol i'w hetholwyr. Yn 2015, derbyniodd y Cyngor £500 gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddatblygu gwefan.

35 Nododd fy archwiliad, er bod y Cyngor wedi creu gwefan, nad yw wedi cyhoeddi llawer o'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi'n electronig. Nid yw'r wefan yn cynnwys copi o gofrestr y Cyngor o fuddiannau aelodau, hysbysiadau archwilio na chyfrifon archwiliedig. Ym mis Ionawr 2018, dim ond cofnodion ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill, Mai a Mehefin 2017 oedd ar gael. Ni chyhoeddwyd unrhyw gofnodion ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 i 2016.

36 Aeth y Cyngor ati'n ddiweddarach i ddiweddaru'r gwaith o gyhoeddi ei gofnodion ar ei wefan. Mae dal angen lanlwytho dogfennau eraill ar y wefan.

## Mae camgymeriadau sylweddol yn y cyfriflenni cyfrifyddu yn y datganiadau blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17

37 Mae'r Cyngor yn cadw ei gofnodion cyfrifyddu ar ffurf llyfr arian parod. Mae hwn yn cofnodi manylion y derbynebau a'r taliadau a wnaed gan y Cyngor pob blwyddyn ariannol. Caiff y trafodion hyn eu crynhoi yn gyfriflen cyfrifyddu syml yn y datganiad blynyddol a gaiff ei gyflwyno i'w archwilio.

38 Mae camgymeriadau yn y cyfriflenni cyfrifyddu sy'n cael eu paratoi gan y Cyngor yr ymddengys eu bod yn deillio o'r diffyg dealltwriaeth o arfer cyfrifyddu cywir a safonau cadw cofnodion gwael.

## Argymhellion

Arddangosyn 4: mae fy argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn:

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff y Datganiad Cyfrifon ei baratoi, ei gymeradwyo a'i gyflwyno i'w archwilio cyn 30 Mehefin bob blwyddyn. |
| A2 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cynghorwyr unigol yn deall eu cyfrifoldebau am y cyfrifon blynyddol. |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau yn brydlon mewn perthynas â chyfrifon 2015-16 a 2016-17. |
| A4 | Dylai'r Cyngor gadw digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol. |
| A5 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn rhoi contract cyflogaeth y cytunwyd arno sy'n nodi telerau ac amodau cyflogaeth y Clerc. |
| A6 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer talu cyflog y Clerc er mwyn cadarnhau'r cyflog a didyniadau ar gyfer treth (gan gynnwys treth ar y lwfans treuliau) wedi'u cyfrifo'n gywir. |
| A7 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod y sefyllfa lle nad yw treth yn cael ei thalu i CThEM yn cael ei hunioni a bod unrhyw daliadau hwyr yn cael eu diweddaru. |
| A8 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cyflogres priodol ac yn talu'r didyniadau treth i CThEM yn brydlon. |
| A9 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 cyn pennu ei braesept. |
| A10 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff ei benderfyniad i gyhoeddi praesept ei gofnodi yn ei gofnodion. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A11 | Dylai'r Cyngor fonitro ei wariant yn erbyn y gyllideb hon drwy gydol y flwyddyn (e.e. drwy gymharu gwariant yn erbyn y gyllideb bob chwarter). |
| A12 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae angen eu cyhoeddi'n electronig a gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi'r rhain ar ei wefan yn brydlon. |
| A13 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn adolygu'r gyfriflen gyfrifyddu sy'n cael ei pharatoi can y Clerc er mwyn cadarnhau cywirdeb y gyfriflen a chadarnhau bod arferion cyfrifyddu cywir wedi'u dilyn wrth baratoi'r gyfriflen. |

## Camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

39 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r digwyddiadau hyn. Deallaf fod y Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau, gan gynnwys y canlynol:

- mae trefniadau ar y gweill i drefnu hyfforddiant addas i'r Clerc a chynghorwyr unigol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau;
- mae'r Cyngor wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer arddangos a chyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar gyfer archwiliad 2017-18;
- mae'r Cyngor wedi rhoi contract cyflogaeth i'r Clerc yn seiliedig ar gontract model Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol;
- gwnaed trefniadau bod y Cyngor yn prosesu TWE yn uniongyrchol;
- mae'r wefan yn awr yn cynnwys yr holl gofnodion a chopi o hysbysiad archwilio 2018; ac
- mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefniant i adolygu cynnydd yn erbyn ei gyllideb yn chwarterol.

## Y camau nesaf

40 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- p'un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- p'un a gaiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu derbyn; a
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) y bydd yn eu cymryd i ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

41 Yna, bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw â mi cyn cyhoeddi ei ymateb.

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

6 Medi 2018

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru